

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	9 EBRILL, 2019
PWNC	CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG
PWRPAS	Adrodd ar wybodaeth Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

CEFNDIR

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol bellach wedi ei chyhoeddi (Chwefror 2019). Bu i Aelodau'r Pwyllgor drafod a chyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel yn eu cyfarfod ar y 25ain o Hydref 2018. Bydd adroddiad y Panel yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

[Adroddiad blynyddol 2019-20](#)

- 1.2 Mae'r prif bwyntiau o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Cynnydd o £268 yn y cyflog sylfaenol i'r holl Aelodau etholedig (codi o £13,600 i £13,868 – cyfateb i 1.97%) o Ebrill 2019. Gweler fod y Panel yn nodi yn eu hadroddiad y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad, gan nodi fod *“cyflogau aelodau'r meinciau cefn wedi aros yn gymharol llonydd dros y 9 mlynedd ddiwethaf ac, mewn termau real, wedi syrthio yn ôl yn sylweddol yn ôl unrhyw fesur rhesymol”*
- Cynyddu yng nghyflogau Arweinydd, Dirprwy Arweinydd ac Aelodau'r Weithrediaeth o £800 (bydd hyn yn cynnwys y £268 sy'n y cyflog sylfaenol i'r holl aelodau). Noda'r Panel *“Er gwaethaf y duedd o gynnydd bach yn lefelau'r uwch gyflogau ers 2012, sydd wedi bod yn is nag unrhyw fesur chwyddiant, mae'r uwch gyflogau yn parhau i fod yn is na'r hyn a welwyd deng mlynedd yn ôl.”*
- Mae'r uwch gyflogau eraill yn derbyn y cynnydd i'r tâl sylfaenol yn unig fel a ganlyn:
 - Cadeiryddion Pwyllgorau (£22,568)
 - Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf £22,568)
- Mae'r cyflog ar gyfer y Pennaeth Dinesig wedi ei osod ar £22,568 a £17,568 i ddirprwy bennaeth dinesig

- 1.3 Fel sy'n cael ei adrodd yn flynyddol, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd yn gosod y lefelau cyflog yn annibynnol ar gyfer holl Gynghorwyr Cymru.

- 1.4 Os yw Aelod Etholedig yn penderfynu peidio derbyn y cyflog, mae'n angenrheidiol iddo/iddi ddatgan hynny yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gweler cymal 3.19 sy'n nodi fel a ganlyn:

"Rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, oni bai bod unigolyn wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod ei fod wedi dewis yn annibynnol ac yn wirfoddol ei fod am ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau'n cael eu rhoi dan bwysau i fynd heb rywfaint o'r cyflogau'n cael ei osgoi."

Ad-dalu Costau Gofal

- 1.5 Mae pwyslais wedi ei nodi unwaith eto eleni gan y Panel ar i aelodau etholedig cymwys hawlio'r ad-daliadau ar gostau gofal y mae ganddynt hawl iddo.

Nodir "O'r trafodaethau yn ystod ein hymweliadau â chynghorau mae'n amlwg mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal. Ymddengys fod rhai aelodau'n dal i fod yn gyndyn o hawlio'r cyfan y mae ganddynt hawl iddo i gefnogi eu gwaith, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd anffafriol y gall hyn ei ddenu (gweler Atodiad 4 am y dewisiadau cyhoeddi). Erfyniwn ar Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i gymryd camau i annog mwy o aelodau i ddefnyddio'r elfen hon o'n fframwaith a hwyluso'r broses o'i hawlio fel nad yw'r aelodau dan sylw'n profi anfantais ariannol."

ARGYMHELLIAD

- 1.6 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth uchod.